OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1411

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Rhif 2) (Cymru) 2001

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 9 Ebrill 2001**

**2.** Daw darpariaethau canlynol Deddf Llywodraeth Leol 2000 i rym ar 9 Ebrill 2001 -

adran 1 (ystyr "local authority" yn Rhan I)

adran 2 (hybu lles)

adran 3(1), (2) ac (8) (cyfyngiadau ar y pŵer i hybu lles)

adran 4(1), (2) a (3)(a) (strategaethau ar gyfer hybu lles)

adran 5(1), (2), (3), (4) a (6) (y pŵer i ddiwygio neu ddiddymu deddfiadau)

adran 6(1), (2), (3), (4), (5), (7) ac (8) (y pŵer i addasu deddfiadau ynghylch cynlluniau etc.)

adran 8 (addasu adran 137 o Ddeddf 1972)

adran 9 (y weithdrefn ar gyfer gorchmynion adran 5 neu 6)

adran 107(2) (mân ddiwygiadau a diddymiadau a rhai canlyniadol) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau canlynol a nodir yn Atodlen 6 —

yn adran 25(8) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, y geiriau o "Without prejudice " i "inhabitants of its area";

yn adran 13 o Ddeddf Ardaloedd Canol Trefi 1978, y geiriau "section 137(1) of the Local Government Act 1972 or";

adran 11A(4) o Ddeddf Tai 1985; ac

adrannau 34 a 35 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.